

**Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol  
(Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (Diwygiadau a Dirymiadau  
Canlyniadol, Ategol a Deilliadol) (Is-ddeddfwriaeth) 2023**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (Diwygiadau a Dirymiadau Canlyniadol, Ategol a Deilliadol) (Is-ddeddfwriaeth) 2023.

Eluned Morgan AS  
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
10 Mawrth 2023

## **RHAN 1**

### **1) Disgrifiad**

Mae'r Memorandwm Esboniad hwn yn ymwneud â Rheoliadau Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (Diwygiadau a Dirymiadau Canlyniadol, Ategol a Deilliadol) (Is-ddeddfwriaeth) 2023. Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan adran 28 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 ("Deddf 2020"). Sefydlodd Deddf 2020 Gorff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru ("y Corff"). Amcan cyffredinol y Corff, wrth arfer ei swyddogaethau, yw cynrychioli buddiannau'r cyhoedd mewn cysylltiad ag Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae Deddf 2020 hefyd yn darparu ar gyfer dileu'r Cynghorau Iechyd Cymuned.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau canlyniadol, atodol a deilliadol i is-ddeddfwriaeth ac yn darparu ar gyfer dirymu is-ddeddfwriaeth er mwyn adlewyrchu bod y Corff wedi ei sefydlu a bod ei swyddogaethau o sylwedd wedi eu cychwyn, a bod y Cynghorau Iechyd Cymuned wedi eu dileu fel y darperir ar eu cyfer yn Neddf 2020.

### **2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

Dim.

### **3. Y cefndir deddfwriaethol**

Gwneir Rheoliadau hyn o dan adran 28 o Ddeddf 2020. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ddarparu ar gyfer unrhyw ddarpariaeth ganlyniadol, atodol neu ddeilliadol, neu unrhyw ddarpariaethau trosiannol, darfodol neu arbed os bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn angenrheidiol neu'n briodol at ddibenion Deddf 2020. Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol, fel y darperir ar ei chyfer o dan adran 25(4) o Ddeddf 2020. Daw'r rhan fwyaf o'r darpariaethau yn y Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2023, er mwyn cyd-fynd â'r dyddiad pan ddaw Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru yn gwbl weithredol, a phan gaiff y Cynghorau Iechyd Cymuned eu dileu. Bydd gweddill y darpariaethau yn y Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 1 Gorffennaf 2023, sef y dyddiad pan fydd rhaid i gyrrff perthnasol roi sylw i'r cod ymarfer ar fynediad i fangre oedd a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 19 o Ddeddf 2020. Mae'r cod ymarfer ar fynediad yn ymwneud ag (a) ceisiadau a gyflwynir gan Gorff Llais y Dinesydd am fynediad i fangre at ddiben ceisio barn unigolion mewn cysylltiad â gwasanaethau Iechyd neu wasanaethau cymdeithasol, a (b) pan fo cytundeb wedi ei wneud i roi mynediad i'r fangre honno, ymgysylltu ag unigolion yn y fangre honno at y diben hwnnw.

#### **4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud y diwygiadau canlyniadol sydd eu hangen i is-ddeddfwriaeth er mwyn adlewyrchu bod Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru wedi ei sefydlu a bod y Cynghorau Iechyd Cymuned wedi eu dileu. Ceir crynodeb byr o effaith y diwygiadau isod o dan enw pob rheoliad.

#### **Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) 1986**

Mae'r Rheoliadau wedi eu diwygio i fewnosod gofyniad bod rhaid i gontractwr (sydd wedi ei ddiffinio fel person sy'n darparu gwasanaethau offthalmig cyffredinol ac y mae ei enw ar y rhestr offthalmig) roi sylw i'r cod ymarfer ar fynediad i fangreoedd fel rhan o'r telerau gwasanaeth. Effaith hyn fydd disodli'r gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau offthalmig cyffredinol mewn perthynas â mynediad gan Gynghorau Iechyd Cymuned, sy'n gymwys ar hyn o bryd yn rhinwedd Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2010, ac a fydd yn peidio â chael effaith pan gaiff y Rheoliadau hynny eu dirymu.

#### **Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Pwyllgorau Gwasanaethau a'r Tribiwnlys) 1992**

Mae'r Rheoliadau wedi eu diwygio i fewnosod cyfeiriadau at Gorff Llais y Dinesydd mewn rheoliadau sy'n ymwneud â chyflwyno dogfennau a chyfansoddiad pwyllgorau disgyblu. Effaith gyffredinol y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y darpariaethau perthnasol yn gymwys i Gorff Llais y Dinesydd, pan fydd yn gwbl weithredol, yn yr un ffordd ag y maent yn gymwys i Gynghorau Iechyd Cymuned ar hyn o bryd.

#### **Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004**

Mae'r Rheoliadau wedi eu diwygio i hepgor diffiniad o 'CHC' (sy'n gyfeiriad at y Cynghorau Iechyd Cymuned) ac i hepgor paragraff sy'n ymwneud â mynd i fangre a'i harolygu gan aelodau o Gynghorau Iechyd Cymuned, gan na fydd y pwerau hynny yn bodoli mwyach pan gaiff y cyrff hynny eu dileu. Yn lle hynny, ymdrinnir â darpariaethau mewn perthynas â mynediad gan Gorff Llais y Dinesydd drwy god ymarfer ar fynediad i fangreoedd a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 19 o Ddeddf 2020 ac a roddir fel canllaw o dan baragraff 123 o Atodlen 6 i Rheoliadau 2004, y bydd yn ofynnol i gontractwyr i wasanaethau meddygol cyffredinol roi sylw iddynt.

#### **Rheoliadau Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG (NHS Blood and Transplant) 2005**

Mae'r Rheoliadau wedi eu diwygio i fewnosod cyfeiriad at Gorff Llais y Dinesydd yn y diffiniad o 'health service body'. Effaith gyffredinol y diwygiad hwn yw sicrhau bod y darpariaethau perthnasol yn gymwys i Gorff Llais y Dinesydd, pan gaiff ei sefydlu, yn yr un ffordd ag y maent yn gymwys i Gynghorau Iechyd Cymuned ar hyn o bryd.

## **Rheoliadau Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (NHS Business Services Authority) 2005**

Mae'r Rheoliadau wedi eu diwygio i fewnosod cyfeiriad at Gorff Llais y Dinesydd yn y diffiniad o 'health service body'. Effaith gyffredinol y diwygiad hwn yw sicrhau bod y darpariaethau perthnasol yn gymwys i Gorff Llais y Dinesydd, pan gaiff ei sefydlu, yn yr un ffordd ag y maent yn gymwys i Gynghorau Iechyd Cymuned ar hyn o bryd.

## **Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deityddol Cyffredinol) (Cymru) 2006 a Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cytundebau Gwasanaethau Deityddol Personol) (Cymru) 2006**

Mae'r Rheoliadau wedi eu diwygio i hepgor y darpariaethau sy'n ymwneud â Chynghorau Iechyd Cymuned (o ran ei gwneud yn ofynnol i gontractwyr ddarparu gwybodaeth ac o ran mynd i fangre a'i harolygu) er mwyn adlewyrchu bod y Cynghorau Iechyd Cymuned wedi eu dileu a bod Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2010 wedi eu dirymu.

Yn lle hynny, ymdrinnir â darpariaethau mewn perthynas â mynediad gan Gorff Llais y Dinesydd drwy god ymarfer ar fynediad i fangreoedd a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 19 o Ddeddf 2020 ac a roddir fel canllaw o dan baragraff 84 o Atodlen 3 i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deityddol Cyffredinol) (Cymru) 2006 a pharagraff 82 o Atodlen 3 i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cytundebau Gwasanaethau Deityddol Personol) (Cymru) 2006, y bydd yn ofynnol i gontractwyr i gontract gwasanaethau deityddol cyffredinol a chontract gwasanaethau deityddol personol yn eu trefn roi sylw iddynt.

## **Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020**

Mae'r Rheoliadau wedi eu diwygio i hepgor diffiniad o Gynghorau Iechyd Cymuned ac i fewnosod diffiniad o Gorff Llais y Dinesydd, a chyfeiriadau ato. Effaith gyffredinol y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y darpariaethau perthnasol yn gymwys i Gorff Llais y Dinesydd, pan fydd wedi ei sefydlu ac yn gwbl weithredol, yn yr un ffordd ag y maent yn gymwys i Gynghorau Iechyd Cymuned ar hyn o bryd. Yn ogystal, mae'r Rheoliadau wedi eu diwygio i hepgor darpariaethau sy'n ymwneud â mynd i fangre a'i harolygu, a fydd yn dod i ben pan gaiff Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2010 eu dirymu, ac i fewnosod gofyniad bod rhaid i fferyllwyr GIG, contractwyr cyfarpar GIG a meddygon sy'n darparu gwasanaethau fferyllol penodol, fel rhan o'u telerau gwasanaeth priodol, roi sylw i'r cod ymarfer ar fynediad i fangreoedd a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 19 o Ddeddf 2020. At hynny, mae diwygiadau hefyd wedi eu gwneud i'r gofynion ar gyfer rhaglen ar gyfer cynnwys y cleifion a'r cyhoedd fel un o'r cydrannau llywodraethu clinigol, i hepgor cyfeiriad at y gofyniad bod rhaid i'r fferyllwyr GIG a'r contractwr cyfarpar GIG gydweithredu'n briodol ag ymweliad Cyngor Iechyd Cymuned a chymryd camau gweithredu priodol o ganlyniad i ymweliadau o'r fath. Yn lle hynny, rhoddir darpariaeth sy'n nodi y dylai'r rhaglen ar gyfer cynnwys y cleifion a'r cyhoedd gynnwys gofyniad bod rhaid i'r fferyllwyr GIG a'r contractwr cyfarpar GIG

(fel sy'n briodol) roi sylw i'r cod ymarfer ar fynediad a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 19 o Ddeddf 2020.

## **Dirymiadau**

Mae'r Rheoliadau hefyd yn dirymu nifer o Reoliadau ac Offerynnau eraill, sy'n ymwneud â Chynghorau Iechyd Cymuned yn bennaf megis Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2010 sy'n ymwneud â chyfansoddiad, aelodau, swyddogaethau a gweithdrefnau Cynghorau Iechyd Cymuned.

## **5. Ymgynghori**

Ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad ar y Rheoliadau hyn yn benodol, sy'n gwneud darpariaethau technegol yn bennaf er mwyn sicrhau bod modd bodloni amcanion Deddf 2020 yn gywir a sicrhau ymhellach fod Deddf 2020 yn cyd-fynd â deddfwriaeth bresennol. Mae ymgynghoriad eisoes wedi cael ei gynnal ar y polisiâu sydd wrth wraidd Deddf 2020, yn ogystal ag ar y cod ymarfer arfaethedig ar fynediad i fangreoedd (sy'n cyfeirio'n benodol at ddarparwyr gofal sylfaenol yn bod yn ddarostyngedig iddo) ac felly ni ystyriwyd ei bod yn angenrheidiol nac yn gymesur gynnal ymgynghoriadau pellach.

## **6. Aseiad Effaith Rheoleiddiol**

Ni luniwyd aseiad effaith rheoleiddiol mewn cysylltiad â'r Rheoliadau hyn, am eu bod yn gwneud diwygiadau canlyniadol a thechnegol i ddeddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli, ac nad ydynt yn gosod nac yn lleihau costau i fusnesau, elusennau na chyrrff gwirfoddol na'r sector cyhoeddus. Mae hyn yn unol â'r polisi a nodir yng Nghod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gyfer cynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth.